# Amserlenni

| | |
|---|---|
| MIRIAM | Ocê, mae Ati'n glanio yn nherfynfa dau am bum munud wedi wyth. |
| SAMAD | Mae'r amserlen yn dweud fod y siwrnai'n cymryd pum deg pum munud, ac mae'r bysus yn gadael bob pedwar deg wyth munud ar ôl pum munud wedi chwech. |
| MIRIAM | Pa fws ydyn ni angen ei ddal felly? |
| SAMAD | Ummmmmm... |
| AL GEBRA | Roedd pennau'r ddau'n troi fel olwynion bws mewn pwll o fwd. Roedd hi'n amser i mi gamu o'r tywyllwch a rhoi'r brêc ar bethau.<br><br>Al yw'r enw. Ditectif Preifat.<br><br>Roedd y brêc wedi gweithio ar eu brêns nhw hefyd. Esbonio pethau'n araf bach fyddai orau…<br><br>Roedd pob siwrnai'n cymryd pum deg pum munud, felly os ychwanegwn ni un awr at bum munud wedi chwech a thynnu pum munud, byddai'r bws yn cyrraedd y maes awyr am saith o'r gloch. |
| MIRIAM | Ond fyddwn ni yno'n rhy fuan. Pryd mae'r bws nesaf? |
| AL GEBRA | Am saith munud i saith o'r gloch. Nawr, ychwanegwch un awr i'r siwrnai a thynnu pum munud…<br><br>A bingo! Mae'n cyrraedd am un deg dau munud i wyth o'r gloch. |
| SAMAD | Dw i wedi drysu. Sut ydyn ni fod i wybod pryd mae'r bws ar ôl hwnnw'n gadael? |
| AL GEBRA | Mae yna fws pob pedwar deg wyth munud. Adia saith munud i fynd â ti at saith o'r gloch ar ei ben. |


© Copyright 2016

| | |
|---|---|
| | Yna, adia’r pedwar deg un munud sydd gen ti ar ôl. Fe weli di y bydd y bws nesaf am un deg naw munud i wyth o’r gloch. |
| AL GEBRA | Gair i gall gan ddyn call, os ydych chi eisiau bod yn rhywle ar amser penodol, cymerwch olwg ar yr amserlen a gweithio tua ’nôl. (Rydych) chi eisiau bod yn y maes awyr am bum munud wedi wyth, felly rhaid dal bws dim hwyrach na deg munud wedi saith. Yr unig ddewis sydd gyda chi yw’r bws am saith munud i saith…<br><br>…sy’n cyrraedd y maes awyr am un deg dau munud i wyth o’r gloch - un deg saith munud yn gynnar. |
| AL GEBRA | Wow! Brêc ymlaen bois - chi ar fin neidio ar y bws anghywir! |
| AL GEBRA | Cês wedi cau. |


© Copyright 2016